# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Mehefin 2021

Amser: 09. - 10.00

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Bethan Garwood<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at ychwanegu'r datganiadau canlynol:

Dydd Mawrth 22 Mehefin 2021

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Coronafeirws (45 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Adolygiad o Ffyrdd (45 munud)

**Dydd Mawrth**

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.05pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer gyntaf.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.00pm.

Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor Busnes y bydd yn rhannu'r Siambr yn 4 'bloc': Gweinidogion, Aelodau meinciau cefn Llafur, y Ceidwadwyr a Plaid/Jane Dodds. Os

bydd un Aelod mewn unrhyw floc yn newid yn ystod egwyl, yna bydd y Llywydd yn gofyn i'r bloc cyfan adael, ac yna ni ddylai unrhyw Aelodau fynd i mewn i'r Siambr nes bod y gloch wedi'i chanu.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 29 Mehefin 2021**

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Diwygio ein Hundeb (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Gwarant Person Ifanc (45 munud)
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021 (30 munud)

**Dydd Mawrth 6 Gorffannaf 2021**

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 14 Gorffennaf 2021 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

**3.4 Cynigion Deddfwriaethol Aelodau - Dethol cynnig i'w drafod**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 30 Mehefin:

**NNDM7713 Gareth Davies**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau wrth ddatblygu, cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru;

b) ymestyn y ddyletswydd sylw dyledus i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru;

c) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ymhlith pobl hŷn ac awdurdodau cyhoeddus Cymru;

d) ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, pobl hŷn a rhanddeiliaid perthnasol eraill cyn gwneud neu ddiwygio'r cynllun hawliau pobl hŷn; ac

e) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus Cymru.

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i amserlennu’r cynnig canlynol i’w drafod ar 14 Gorffennaf:

**NNDM7723 Jane Dodds**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar reoleiddio, monitro a chomisiynu gofal preswyl i blant, gan gynnwys plant y mae angen gofal iechyd meddwl cleifion mewnol arnynt, a gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu neu niwroamrywiaeth arall yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) gwella'r broses o gomisiynu a darparu lleoliadau gofal preswyl i blant yng Nghymru, gan gynnwys cydgysylltu a darparu ar draws awdurdodau lleol i sicrhau bod lleoliadau addas yn fwy digonol;

b) gwella'r broses o reoleiddio a monitro gofal preswyl a lleoliadau maethu, gan gynnwys alinio â gwasanaethau eraill fel addysg, tai a digartrefedd, ac iechyd;

c) dileu'r ddarpariaeth ar gyfer darparwyr sy'n gwneud elw yn y sector gofal preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a niwroamrywiaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor Busnes am i ganllawiau pellach gael eu drafftio ynghylch sut i ddethol Cynigion Deddfwriaethol Aelodau.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro gyflwyno adroddiad ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021 erbyn dydd Llun 28 Mehefin.

### 4.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd Bil yr Amgylchedd a'r Bil Cymwysterau Proffesiynol yn cael eu cyfeirio at bwyllgorau ar ôl iddynt gael eu sefydlu. Cytunodd y Trefnydd i gadarnhau'r amseru ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

## 5 Sefydlu Pwyllgorau a'u cylchoedd gorchwyl

### 5.1 Pwyllgorau'r Chweched Senedd – cylchoedd gorchwyl

Trafododd y Pwyllgor Busnes gylchoedd gorchwyl arfaethedig y pwyllgorau. Dywedodd Siân Gwenllian fod Plaid Cymru yn ffafrio rhoi'r cyfansoddiad a deddfwriaeth mewn dau bwyllgor gwahanol, o ystyried y llwyth gwaith tebygol. Nododd Darren Millar wrthwynebiad y grŵp Ceidwadol i fodel deuddeg pwyllgor, gan nad yw'n caniatáu i ddyraniad cadeiryddion rhwng y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru adlewyrchu maint cymharol y grwpiau, a dywedodd pe bai deuddeg pwyllgor yn cael eu sefydlu, y byddai'r grŵp yn disgwyl cadeirio tri o'r pwyllgorau mwy.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i barhau i drafod cylchoedd gorchwyl posibl o fewn model deuddeg pwyllgor, ac ailymgynnull yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

### 5.2 Amserlen Arfaethedig ar gyfer Sefydlu Pwyllgorau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r balotau ar gyfer Cadeiryddion gael eu cynnal yn gorfforol, gydag unrhyw Aelodau a fyddai'n methu â bod yn bresennol oherwydd cyfyngiadau neu am resymau meddygol yn gallu gwneud cais i bleidleisio drwy ddulliau electronig o bell pe bai angen.

# 6 Comisiwn y Senedd

## 6.1 Comisiwn y Senedd

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes drwy bleidlais fwyafrifol i ofyn i'r grŵp Llafur gynnig enw pedwerydd Comisiynydd i'r Pwyllgor ei ystyried, a dychwelyd at y mater yn y cyfarfod yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

# Unrhyw faterion eraill

*Y Gyllideb Atodol Gyntaf*

Dywedodd y Trefnydd wrth y Pwyllgor Busnes y bydd y gyllideb atodol gyntaf yn cael ei gosod heddiw a bwriedir cynnal dadl ar 13 Gorffennaf.

*Dyrannu seddi yn y Siambr*

Cododd Darren Millar y ffaith bod un sedd yn y Siambr yn cael ei rhannu rhwng Plaid Cymru a Jane Dodds ar hyn o bryd, a gofynnodd iddi gael ei rhannu rhwng y Ceidwadwyr, Plaid Cymru a Jane Dodds. Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa gan y Llywydd fod yr holl Aelodau'n gyfartal, p'un a ydynt yn cymryd rhan o bell neu yn y Siambr.

*Oriel gyhoeddus*

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bwriedir agor yr oriel gyhoeddus i nifer cyfyngedig o 28 Mehefin.

*Adam Price*

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod, yn dilyn diwygio'r canllawiau y cytunwyd arnynt bythefnos yn ôl, wedi penderfynu bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i gais Adam Price am bleidlais drwy ddirprwy ac wedi cytuno y gallai gael trefniant pleidleisio drwy ddirprwy tan ddiwedd y tymor hwn. Bydd y dystysgrif yn cael ei gosod heddiw.